

Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022/23

Chwefror 2022

Ar 20 Rhagfyr 2021 gosododd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2022-2023 gerbron y Senedd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu barn y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft a'i argymhellion.

Tystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor mewn sesiwn craffu ar y gyllideb ar 20 Ionawr 2022. Roedd gan y sesiwn ddau banel, un gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd ac un gyda Gweinidog yr Economi. Roedd swyddogion cymorth yn bresennol gyda'r naill Weinidog a'r llall. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu ar y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a Gweinidog yr Economi fel ei gilydd, cyn y sesiwn. Mae'r adroddiad hwn wedi'i osod mewn dwy bennod, y gyntaf ar y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Materion Gwledig a'r ail ar Brif Grŵp Gwariant yr Economi.



1. Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol yr adnoddau priodol i orfodi Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26.....4
- Argymhelliad 2.** Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn cydweithio i sicrhau y dylid cynyddu cyllid 'cymorth grant' craidd Cyfoeth Naturiol Cymru i adlewyrchu'r llwyth gwaith cynyddol a grëir yn sgil gorfodi. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 fel ag y maent.....5
- Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo cyllid clir ar gyfer ymgysylltu â ffermwyr ynghylch pontio i fodel newydd o gymorth ffermio.6
- Argymhelliad 4.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y gwaith gweinyddol ychwanegol a grëir gan y nifer fawr o gontractau unigryw arfaethedig o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a dyrannu cyllid yn unol â hynny.6
- Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ailystyried y fethodoleg ar gyfer pennu cyllid i ddisodli cyllid yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol a mynd i'r afael â'r diffyg yn y cyllid ar gyfer 2021-22. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.6
- Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer ei swyddogaethau o ran pysgodfeydd.7
- Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r dyraniad cyllid a'r amcanion cysylltiedig ar gyfer y cynllun gweithredu a fydd yn cefnogi Dewch i Luno'r Dyfodol..7
- Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu pecyn o gymorth wedi'i dargedu i gefnogi adferiad economaidd yn y sectorau hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y cyfyngiadau diweddar.8
- Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion y gweithgaredd penodol y bydd y dyraniadau refeniw a chyfalaf ar gyfer y Banc Cymunedol yn cael eu defnyddio i'w cefnogi.....8
- Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor ar sail flynyddol am y cynnydd yn erbyn ei tharged o ddyblu maint y sector eiddo i weithwyr erbyn diwedd y Senedd hon.....9

-
- Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau eu trafodaeth â Banc Datblygu Cymru, gan gynnwys ynghylch eu hadnoddau a sut y gall gefnogi busnesau i lwyddo.....10
- Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o fanylion am y risg i ddyfodol Busnes Cymru a nodi'r goblygiadau i fusnesau os na chaiff cyllid cyffredinol ar gyfer Busnes Cymru ei gynnal ar y lefel bresennol.....10
- Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gwario'r dyraniad ar gyfer gradd-brentisiaethau a'i chynlluniau ar gyfer ehangu'r cyrsiau a chynyddu amrywiaeth gradd-brentisiaid yn unol ag adroddiad 2020 Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.....10
- Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir i'r Pwyllgor sut mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r amcan o ennill cyllid cystadleuol ar gyfer ymchwil ac arloesi i ddisodli cyllid yr UE, a fydd yn cael ei golli i Gymru.10
- Argymhelliad 15.** Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru nodi dadansoddiad o'r cyfraniadau gan bob Prif Grŵp Gwariant – ar lefel llinell wariant yn y gyllideb – sy'n cyfuno i wneud y cyfanswm o £500 mewn ariannu yr amcangyfrifir sydd ei angen er mwyn cyflawni'r Warant i Bobl Ifanc. Dylai'r dadansoddiad hwn ei gwneud yn glir beth yw cyllid newydd a beth sy'n barhad o raglenni presennol.....11
- Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dyrannu cyllid penodol i sicrhau bod busnesau Cymru yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a pharatoi ar gyfer newidiadau sy'n deillio o gytundebau masnach rydd newydd.....12
- Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r Pwyllgor i'r funud o ran datblygiadau swyddi rheoli ffiniau newydd yng Nghymru, yn ogystal â chanlyniadau trafodaethau mewnol a rhynglywodraethol ynghylch eu hariannu.....12
-

2. Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

1. Ar 4 Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26. Mae'n cwmpasu anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes ac anifeiliaid eraill a gedwir. Mae'n tynnu sylw at bedwar o ymrwymadau Llywodraeth Cymru a'r cynnydd a wnaed tuag atynt. Mae'r canlynol ymhlith yr ymrwymadau:

- datblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, gan gyflwyno cofrestr ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid, bridwyr masnachol anifeiliaid anwes neu anifeiliaid ar gyfer saethu, ac arddangosfeydd anifeiliaid;
- gwella'r cymwysterau i arolygwyr lles anifeiliaid i godi eu statws proffesiynol;
- gwneud teledu cylch cyfyng yn ofynnol ym mhob lladd-dy; a
- chyfyngu ar ddefnyddio cewyll ar gyfer anifeiliaid a ffermir.

2. Mae awdurdodau lleol yn gorfodi llawer o reoliadau lles anifeiliaid. Mae grwpiau lles anifeiliaid wedi dadlau bod diffyg adnoddau at y diben hwn. Mae RSPCA Cymru wedi dweud wrth y Pwyllgor yn flaenorol: *"There remains a need for a wholesale review concerning the ability of Local Authorities and other agencies to enforce legislation that impacts upon the welfare of animals"*.

3. Fe wnaeth y Gweinidog roi gwybod i'r Aelodau bod yna brosiect gorfodi awdurdod lleol, gan ddweud *"it's okay having the strategies and the policies, but if the enforcement doesn't work, then you're not going to make any progress"*. Dywedodd RSPCA Cymru wrth y Pwyllgor yn flaenorol er bod croeso i brosiect hyfforddi Llywodraeth Cymru ar orfodi Awdurdodau Lleol, mae'n rhaid iddo gael ei ategu gan fwy o adnoddau. Mae'r Aelodau'n cytuno'n llwyr y bydd gorfodi'n hanfodol i lwyddiant y cynllun ac yn pryderu y gallai diffyg cyllid arwain at fethu gorfodi'r rheoliadau newydd yn ôl y disgwyl.

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol yr adnoddau priodol i orfodi Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26.

Rheoliadau llygredd amaethyddol

4. Pan wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru roi tystiolaeth i'r Aelodau ym mis Medi ynghylch y Rheoliadau, fe wnaethant ddweud: "*The regulations themselves provide us with a massive workload.*" Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n amcangyfrif bod angen 60 o staff ychwanegol i gyflawni'r hyn sy'n isafswm o ran cynnyrch hyfyw ond ymhell dros 200 i gyflawni'r rôl yn llawn.
5. Y Gweinidog Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am bennu cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru. Nododd y Gweinidog Materion Gwledig fod cymorth grant craidd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei gynnal a bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar ymarfer adolygu sylfaenol i archwilio'r modd y caiff adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru eu dyrannu yn erbyn ei swyddogaethau statudol ac ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu.
6. Ychwanegodd y Gweinidog, er nad oedd hi wedi trafod cyllid ychwanegol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, roedd yna bosiblwydd y gellid dod o hyd i arian ychwanegol o'r gyllideb Materion Gwledig pe bai angen, yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad sylfaenol a thrafodaethau pellach.
7. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn destun adolygiad barnwrol ar hyn o bryd, yn ogystal ag ymchwiliad parhaus gan y Pwyllgor hwn. Nid yw'r Aelodau wedi gorffen casglu tystiolaeth ac nid ydynt am achub y blaen ar eu canfyddiadau. Fodd bynnag, mae'r Aelodau'n pryderu nad yw cyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi'i gynyddu yn y gyllideb i adlewyrchu ei gyfrifoldebau gorfodi ychwanegol sy'n ofynnol gan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Argymhelliad 2. Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn cydweithio i sicrhau y dylid cynyddu cyllid 'cymorth grant' craidd Cyfoeth Naturiol Cymru i adlewyrchu'r llwyth gwaith cynyddol a grëir yn sgil gorfodi. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 fel ag y maent.

Pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

8. Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn dangos bod y cyllid ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid amaeth yn parhau i fod yr un fath. Mae'r papur yn egluro mai'r cyllid hwn "yw'r *mecanwaith allweddol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid amaeth a'r diwydiant ehangach ar gynlluniau, polisiau a mentrau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru*".
9. Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu ei Chynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig gyda'r bwriad o gynnal gwaith 'cyd-gynllunio' pellach yn haf 2022 ac ymgynghori ar gynigion terfynol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Cynllun Pontio yn ystod gwanwyn 2023. Disgwylir

ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gyfrwng rhaglen allgymorth ar y cynllun terfynol, y flwyddyn ganlynol.

10. Mae'r Aelodau'n pryderu nad oes unrhyw gynnydd yn y cyllid ar gyfer ymgysylltu â ffermwyr, er gwaethaf pontio i fodel newydd o gymhorthdal ffermio. Gan mai dyma'r mecanwaith allweddol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â ffermwyr, byddai'r Aelodau wedi disgwyl gweld cynnydd ar gyfer ymgyrch ynghylch y model cymhorthdal newydd.

11. Fe wnaeth Undeb Amaethwyr Cymru godi pryderon gyda'r Pwyllgor ynghylch y modd y byddai Llywodraeth Cymru yn talu am y cynnydd mewn gweinyddiaeth sy'n ofynnol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, o ystyried y nifer fawr o gontractau unigryw a ddisgwylir. Fe wnaeth y Gweinidog ddweud wrth y Pwyllgor: *"no decisions have been taken at all about the exact funding that will be allocated"*. Mae'r Aelodau'n bryderus bod y cwestiwn yn parhau i fod heb ei ateb.

12. Mae Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu'r un fethodoleg i ddisodli cyllid amaethyddol yr UE yn yr Adolygiad hwn o Wariant ag y gwnaeth ar gyfer 2021-22. Mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno â'r dull hwn, gan ddadlau ei fod yn arwain at sefyllfa net o ran gwariant yr UE sy'n weddill (*"nets off outstanding EU spending"*). Mae papur y Gweinidog yn awgrymu y bydd yr un dull yn golygu y bydd Cymru'n cael o leiaf £106m yn llai na'r disgwyl ar gyfer 2022-23. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid defnyddio'r broses datrys anghydfod (sydd heb ei phrofi hyd yn hyn) i symud y mater hwn yn ei flaen.

13. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld sicrwydd y bydd y Gweinidog yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ailystyried y fethodoleg a mynd i'r afael â'r diffyg o ran cyllid ar gyfer 2022-23. Hoffai'r Aelodau i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y materion hyn.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru neilltuo cyllid clir ar gyfer ymgysylltu â ffermwyr ynghylch pontio i fodel newydd o gymorth ffermio.

Argymhelliad 4. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y gwaith gweinyddol ychwanegol a grëir gan y nifer fawr o gontractau unigryw arfaethedig o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a dyrannu cyllid yn unol â hynny.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ailystyried y fethodoleg ar gyfer pennu cyllid i ddisodli cyllid yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol a mynd i'r afael â'r diffyg yn y cyllid ar gyfer 2021-22. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Pysgodfeydd

14. Fe wnaeth y Gweinidog ddweud wrth y Pwyllgor: *"The line for marine and fisheries is £4.5 million. That includes £2.1 million for EU replacement funding"*. Fodd bynnag mae'r tablau gwariant yn dangos dyraniad o £3.1 miliwn ar gyfer 'y môr a physgodfeydd' a dyraniad o £3 miliwn o ran papur y Gweinidog.

15. Mae llinell ar wahân, 'Cynlluniau Pysgodfeydd a Ariennir gan yr UE' yn cynnwys y £2.1 miliwn o gyllid i ddisodli cyllid yr UE. Yn yr un modd, mae'r tablau gwariant yn dangos dyraniad o £2.7 miliwn i'r llinell hon, ac eto mae papur y Gweinidog yn dangos dyraniad o £2.2 miliwn.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer ei swyddogaethau o ran pysgodfeydd.

3. Gweinidog yr Economi

Cynllun gweithredu yr economi ymwelwyr

16. Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru'n amlygu bod yr economi ymwelwyr yn sector *"y mae pandemig y Coronafeirws yn effeithio'n ddifrifol"* arni. At hynny, *"mae busnesau wedi wynebu heriau eithriadol na welwyd eu tebyg, ac er gwaethaf ymyriadau ariannol helaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mae'r dirywiad yn y sector yn dal i gael effaith ddifrifol – symbolaidd, gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd – ar lawer o drefi a phentrefi sydd hefyd yn wynebu heriau eraill sy'n gysylltiedig â Covid-19, a fydd yn parhau i 2022/23."*

17. Mae'r Aelodau'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gweithredu i gefnogi Dewch i Lunio'r Dyfodol, cynllun adfer y Llywodraeth ar gyfer y sector. At hynny, roedd yr Aelodau'n falch iawn o glywed am y gwaith ymgysylltu â'r sector sydd wedi digwydd yn sgil Dewch i Lunio'r Dyfodol.

18. Fodd bynnag, mae'r Aelodau'n dal i bryderu nad oes digon o fanylion am y dyraniad cyllidebol ar gyfer y cynllun gweithredu. Hoffai'r Aelodau weld dadansoddiad o'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i'r cynllun gweithredu a'r weledigaeth o ran yn union beth fydd y cyllid hwnnw'n ei gyflawni.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r dyraniad cyllid a'r amcanion cysylltiedig ar gyfer y cynllun gweithredu a fydd yn cefnogi Dewch i Lunio'r Dyfodol.

Cymorth Busnes ar gyfer Adfer

19. Ar 23 Rhagfyr fe wnaeth y Gweinidog gyhoeddi y byddai Llywodraeth Cymru yn tynnu'r gronfa cymorth i fusnesau, gwerth £35 miliwn – a oedd wedi'i hanelu at gefnogi busnesau bach a chanolig i "*ail ddechrau, datblygu, datgarboneiddio a thyfu i helpu i sbarduno adferiad economaidd Cymru*". Fe wnaeth y Gweinidog ddweud wrth y Pwyllgor fod arian wedi ei ddargyfeirio at ddibenion yr ymateb brys a bod heriau o ran ariannu yn golygu nad oedd adnoddau ar gael ar gyfer y gronfa cymorth i fusnesau. Aeth ymlaen i ddweud, o ran Llywodraeth Cymru: "*We need to make sure that every pound we spend works even harder, as well as thinking about what we can do in being more creative in other areas as well.*"

20. Mae'r Aelodau'n gwerthfawrogi'r angen i ailgyfeirio cyllid i'r busnesau hynny sy'n cael eu gorfodi i roi'r gorau i fasnachu dros dro fel rhan o'r ymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n bryderus o glywed bod hynny'n golygu na fydd y sectorau yr effeithiwyd arnynt gan y cyfyngiadau diweddaraf yn cael mynediad at y cymorth y byddent wedi'i gael yn flaenorol i'w helpu i adfer.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu pecyn o gymorth wedi'i dargedu i gefnogi adferiad economaidd yn y sectorau hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y cyfyngiadau diweddar.

Banc Cymunedol

21. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi'r broses o sefydlu Banc Cymunedol i Gymru. Dywedodd Gweinidog yr Economi wrth yr Aelodau fod gan ei gyllideb y canlynol at ddibenion y prosiect o dan sylw: "*A development phase revenue funding of £150,000 in the financial year*". Mae paper y Llywodraeth yn nodi bod y cyllid hwn ar gyfer "*datblygu ymchwil a pholisi parhaus drwy gaffael arbenigedd / adroddiadau allanol mewn meysydd fel asesu effaith economaidd, diwydrwydd dyladwy ariannol a chyngor cyfreithiol.*"

22. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn chwarae'r rôl arweiniol o ran y buddsoddiad cyfalaf i sefydlu'r 'Banc Cymunedol'. Mae'r llinell wariant yn y gyllideb yn dangos dyraniadau cyfalaf o £1.5 miliwn yn 2022/23 a 2023/24, a dyraniad o £1.75 miliwn yn 2024/25 o'i chyllideb.

23. Mae'r Aelodau'n awyddus i weld rhagor o fanylion am y modd y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion y gweithgaredd penodol y bydd y dyraniadau refeniw a chyfalaf ar gyfer y Banc Cymunedol yn cael eu defnyddio i'w cefnogi.

Busnesau sy'n eiddo i weithwyr

24. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddyblu maint y sector eiddo i weithwyr yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd hon. Fe wnaeth Gweinidog yr Economi eglwro nad oedd wedi gosod cerrig milltir blynyddol ar gyfer nifer y busnesau sy'n eiddo i weithwyr, yr hoffai eu gweld yn cael eu creu fel rhan o'r targed cyffredinol hwn. Fodd bynnag, dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar hynny o fewn pob blwyddyn i weld beth y mae wedi'i gyflawni.

25. Mae'r Aelodau'n derbyn efallai nad targedau blynyddol yw'r ffordd orau o fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael gwybod am unrhyw gynnydd. Fel y cyfryw, hoffai'r Aelodau gael dadansoddiad o gynnydd yn erbyn pob blwyddyn.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor ar sail flynyddol am y cynnydd yn erbyn ei tharged o ddyblu maint y sector eiddo i weithwyr erbyn diwedd y Senedd hon.

Banc Datblygu Cymru a Busnes Cymru

26. Nododd y Gweinidog sawl tro yn ystod y sesiwn ei fod yn cynnal trafodaethau gyda Banc Datblygu Cymru ynghylch materion amrywiol. Roedd y rheini'n cynnwys: *"the resources they have, and whether we can make even greater use of financial transactions capital"* and *"what they are going to do to support businesses to try to succeed and flourish."*

27. Yn ôl y Gweinidog mae Busnes Cymru yn stori o lwyddiant go iawn, a dywedodd wrth yr Aelodau fod y Llywodraeth wedi dod o hyd i arian i'w gynnal. Dywedodd wrth yr Aelodau, fodd bynnag: *"In the middle of this Senedd term, there'll be more questions if we don't have clarity on successor EU funding or increases in the overall Welsh Government budget. There could be more difficult choices there as well."*

28. Fe wnaeth Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Bumed Senedd amlygu'r cymorth a gynigiwyd gan Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru fel *"un o storïau llwyddiant y pandemig"*. Yn eu hadroddiad ar yr adferiad yn dilyn COVID-19 mae'n dweud y *"dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru yn cael digon o adnoddau i barhau â'u rolau allweddol yn yr ymdrechion adfer ac ail-greu."*

29. Mae'r Aelodau'n awyddus i weld bod cymaint â phosibl o'r arbenigedd sydd wedi'i feithrin yn ystod y pandemig gan Busnes Cymru a'r Banc Datblygu – a'u rôl wrth gefnogi'r adferiad – yn cael ei sicrhau. O'r herwydd, hoffai'r Aelodau gael y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau ynghylch dyfodol y ddau gorff.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau eu trafodaeth â Banc Datblygu Cymru, gan gynnwys ynghylch eu hadnoddau a sut y gall gefnogi busnesau i lwyddo.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o fanylion am y risg i ddyfodol Busnes Cymru a nodi'r goblygiadau i fusnesau os na chaiff cyllid cyffredinol ar gyfer Busnes Cymru ei gynnal ar y lefel bresennol.

Gradd-brentisiaethau

30. Fe wnaeth y Gweinidog esbonio fod y Llywodraeth yn mynd i symud, ac yn mynd i allu ehangu gradd-brentisiaethau. Cynhaliodd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Bumed Senedd Ymholiad i radd-brentisiaethau ac ymhlith yr argymhellion oedd y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ehangu'r ystod o fframweithiau, a chanolbwyntio ar ehangu mynediad i'r cynllun peilot nad yw ei garfannau'n gynrychioliadol. Fodd bynnag, roedd gan y Pwyllgor bryderon nad yw'r Gyllideb yn adlewyrchu'n ddigonol a ellid bodloni'r argymhellion hynny.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gwario'r dyraniad ar gyfer gradd-brentisiaethau a'i chynlluniau ar gyfer ehangu'r cyrsiau a chynyddu amrywiaeth gradd-brentisiaid yn unol ag adroddiad 2020 Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Ymchwil ac Arloesi

31. Mae papur Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â'r strategaeth arloesi ond fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unrhyw fanylion am yr adnoddau a fwriedir. Yn sesiwn y Pwyllgor, fe wnaeth Huw Morris ddweud wrth yr Aelodau: "*£10 million additional allocation for QR [Quality Related] to the funding council for universities, and that includes £2 million for the Wales innovation network, specifically guided to increase that bidding activity*". Addawodd Llywodraeth Cymru fanylion pellach, ac eglurhad ysgrifenedig.

32. Yn 2019, cynhaliodd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Bumed Senedd ymchwiliad i Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru. Un o argymhellion y Pwyllgor oedd ariannu argymhellion Adolygiad Reid yn llawn. Mae'r Aelodau'n awyddus i weld yr eglurhad a gynigir gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyllid, ac yn cytuno â'r farn y dylai argymhellion Adolygiad Reid 2017 gael eu hariannu'n llawn.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir i'r Pwyllgor sut mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r amcan o ennill cyllid cystadleuol ar gyfer ymchwil ac arloesi i ddisodli cyllid yr UE, a fydd yn cael ei golli i Gymru.

Gwarant i Bobl Ifanc

33. Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn un o ymrwymïadau allweddol maniffesto Llywodraeth Cymru sy'n anelu at greu "*pecyn cynhwysfawr yn tynnu ynghyd raglenni sydd wedi'u cynllunio i ddarparu'r gefnogaeth iawn ar yr amser iawn yn ôl anghenion amrywiol pobl ifanc ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau hwylus newydd i helpu pobl ifanc i ddod o hyd i gyfleoedd yn haws.*" Fe wnaeth Gweinidog yr Economi ddweud wrth yr Aelodau mai'r Warant oedd prif ymrwymïad Llywodraeth Cymru ("*our headline commitment*").

34. Yn sesiwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gyda'r Gweinidog Addysg fe dywedodd wrth Aelodau'r Pwyllgor hwnnw bod y gyllideb ar gyfer y Warant yn drawsbynciol ac nad oes llinell ar wahân ar ffurf y Warant i Bobl Ifanc. Mae Aelodau'r Pwyllgor hwn yn pryderu am y diffyg tryloywder ynghylch ariannu a chyflawni'r ymrwymïad allweddol hwn gan y Llywodraeth.

Argymhelliad 15. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru nodi dadansoddiad o'r cyfraniadau gan bob Prif Grŵp Gwariant – ar lefel llinell wariant yn y gyllideb – sy'n cyfuno i wneud y cyfanswm o £500 mewn ariannu yr amcangyfrifir sydd ei angen er mwyn cyflawni'r Warant i Bobl Ifanc. Dylai'r dadansoddiad hwn ei gwneud yn glir beth yw cyllid newydd a beth sy'n barhad o raglenni presennol.

Masnach Ryngwladol a Safleoedd Rheoli Ffiniau

35. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud dyraniad o £4.7 miliwn at ddibenion allforio, masnach a mewnfuddsoddi, fe wnaeth y Gweinidog ddweud wrth yr Aelodau y bydd y mwyafrif helaeth o hwn (£4.5 miliwn) yn cael ei ddyrannu tuag at gefnogi busnesau i barhau i allforio. Aeth ymlaen i ddweud: "*We haven't factored in a specific amount for new free trade agreements, because I genuinely think it is premature to be able to do so.*"

36. At hynny, fe waneth y Gweinidog ddweud wrth yr Aelodau bod mwy o waith i'w wneud ynghylch ariannu swyddi rheoli ffiniau. Eglurodd y byddai angen cytundeb rhwng Gweinidogion Cymru ynghylch: "*How those running costs are spread across the Welsh Government, if the UK Government still insist on transferring the cost of these new measures into the Welsh Government budget.*" Aeth ymlaen i ddweud "*There's certainly no allocation in the UK budget settlement for the increased costs that are inevitable from running border control posts*"

37. Mae'r Pwyllgor yn falch bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi arian i gefnogi busnesau i allforio. Fodd bynnag, o ystyried y cyfleoedd a gyflwynir ond hefyd pryderon y mae rhanddeiliaid wedi'u codi ynghylch effaith cytundebau masnach ar sectorau, mae'r Aelodau'n

teimlo y dylid rhoi dyraniad cyllideb penodol i gefnogi busnesau i ymateb i unrhyw gytundebau masnach newydd.

38. Mae'r Aelodau'n awyddus i glywed canlyniadau trafodaethau yn y dyfodol o fewn Llywodraeth Cymru – a rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU – ynghylch ariannu swyddi rheoli ffiniau.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dyrannu cyllid penodol i sicrhau bod busnesau Cymru yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a pharatoi ar gyfer newidiadau sy'n deillio o gytundebau masnach rydd newydd.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru gadw'r Pwyllgor i'r funud o ran datblygiadau swyddi rheoli ffiniau newydd yng Nghymru, yn ogystal â chanlyniadau trafodaethau mewnol a rhynglywodraethol ynghylch eu hariannu.